Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin y Fali**
**Ysgol Gymuned Y Fali**
**Y Fali**
**Ynys Môn**
**LL65 3EU**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/03/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Y Fali wedi ei leoli ym mhentref y Fali ar gyrion Caergybi. Darperir addysg gyfrwng Gymraeg mewn ystafell oddi fewn i adeilad Ysgol Gymunedol y Fali. Mae'n cael ei reoli gan gwmni preifat ac fe gofrestrir y Lleoliad gyda'r Mudiad Meithrin.

Mae'r lleoliad yn agored o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8:55yb hyd 11:00yb drwy gydol y flwyddyn yn ystod amser ysgol. Mae wedi ei gofrestru ar gyfer 10 o blant i bob sesiwn. Ar hyn o bryd mae 10 o blant rhwng dau a hanner a thair oed ar y gofrestr. Mae 6 o'r plant wedi eu cyllido gan addysg blynyddoedd cynnar.

Mae pob un o'r plant sydd yn mynychu'r lleoliad yn siarad Saesneg gartref. Mae gan ddyraniad uchel ohonynt anghenion addysgol ychwanegol.

Mae yna dri aelod o staff gan gynnwys arweinydd sy'n gweithio pob sesiwn. Maent i gyd yn brofiadol ac yn meddu'r cymwysterau priodol ar gyfer addysg a gofal plant bach. Apwyntiwyd yr arweinydd yn 2012 a'r uwch ymarferwyr yn 2015.

Nid ydyw'r lleoliad wedi ei arolygu o'r blaen gan unai Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) nag Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd mae'r:

- ymarferwyr yn creu awyrgylch groesawgar ac mae'r berthynas rhwng yr oedolion a'r plant yn dda iawn
- staff yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol i'r plant
- prif ymarferwyr yn fodelau iaith cadarn iawn ac mae eu haddysgu yn gyson effeithiol ac ysgogol
- ymarferwyr yn arddangos disgwyliadau uchel i annog plant i ymddwyn yn dda ac i feithrin agweddau positif at ddysgu
- staff yn cynllunio'n effeithiol i gynorthwyo plant o bob gallu i ddangos cynnydd mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon y lleoliad i wella yn dda oherwydd mae'r:

- rheolwyr a'r arweinwyr yn arddangos gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r lleoliad ac maent yn gwbl ymroddedig iddo
- cynllun hunan- arfarnu yn cynnwys targedau a phrosesau clir i wella bywyd bob dydd y lleoliad a fe'i gweithredir yn effeithiol
- ymarferwr i gyd yn dangos agwedd gadarnhaol at ddatblygiad a hyfforddiant syddac mae hyn yn cael effaith dda ar ddysgu'r plant
- ymarferwyr yn gweithredu cyngor yr awdurdod lleol yn effeithiol iawn yn ogystal a chyngor Y Mudiad Meithrin ar ddatblygiad sgiliau'r plant yn y Gymraeg
- lleoliad yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1. Darparu defnydd o adnoddau digonol i ddatblygu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu plant (TGCh) ar draws pob maes dysgu.

A2. Sicrhau pontio llyfn y plant o'r lleoliad i'r ysgol brif ffrwd a dilyniant effeithiol.

A3. Ffurfioli partneriaethau gyda'r holl asiantaethau i sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithlon ac yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posibl o'u sgiliau gwahanol i wella datblygiad plant ym mhob maes o'r cwricwlwm.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau Dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o brofiadau ysgogol ar draws pob maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn seilio'r rhain ar themâu perthnasol, megis eira a thywydd oer. Mae'r gweithgareddau yn cyd-fynd ag anghenion plant unigol yn dda ac yn apelio at eu diddordebau.

Mae'r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd da iawn i gefnogi datblygiad creadigol plant trwy amrywiaeth o beintio, cyfryngau gwneud marciau a deunyddiau adeiladu. Mae pob plentyn yn cael defnydd rheolaidd o feiciau, beiciau tair olwyn, fframiau, deunyddiau adeiladu gwahanol, dŵr a chafnau tywod, sy'n hyrwyddo eu datblygiad corfforol yn dda. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer plant i gaffael gwybodaeth am y byd tu allan i'r teulu trwy ymweliadau â'r gymuned leol a rhai ymweliadau gan 'Pobl sy'n ein helpu.'

Mae ymarferwyr yn darparu cydbwysedd da iawn rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a rhai a gychwynnir gan y plentyn. Mae digon o gyfleoedd i ddisgyblion benderfynu eu hunain pa weithgareddau maent am ddewis. Mae'r gweithgareddau yn ysgogol a phwrpasol, er enghraifft, gwneud peli braster hadau a'u hongian ar y coed y tu allan i fwydo adar ar ddiwrnod arbennig o rewllyd a gwneud a mynd ar ôl swigod.

Rhoddir sylw da i herio'r plant mwy galluog mewn grwpiau ffocws a pan fyddant yn chwarae ac yn dangos brwdfrydedd, er enghraifft, am sut mae iâ yn toddi.

Mae ymarferwyr yn gwau llythrennedd, rhifedd a sgiliau iaith Gymraeg trwy bob gweithgaredd yn effeithiol iawn, er enghraifft, pan fydd plant yn cyfrif peli eira a gweithio allan sut i archebu plu eira o faint gwahanol. Maent yn cynllunio cyfleoedd

gwerthfawr i blant ddatblygu eu mwynhad o gerddoriaeth ac o Gymraeg a'r Saesneg drwy ganu amrywiaeth eang o ganeuon a chwarae gemau. Maent yn defnyddio labeli a llyfrau o gwmpas y lleoliad yn effeithiol i wella dealltwriaeth plant o symbolau a lluniau sy'n cyfleu ystyr. Maent yn darparu digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu cynnar ar draws pob maes dysgu. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da iawn i blant ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg yn ddyddiol yn y lleoliad. Mae'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau TGCh drwy dasgau ffocws a chwarae annibynnol yn gyfyngedig iawn o ganlyniad i ddefnydd prin o adnoddau.

Mae'r darparwyr yn rhoi pwyslais da ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Maent yn darperu cyfleoedd da iawn i'r plant i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd ehangach drwy wau storïau ac amrywiaeth o adnoddau o wahanol wledydd i mewn i'w thema Gaeaf. Er enghraifft trwy stori am ferch o'r enw Sasha o Rwsia a'i dulliau hi o deithio i'r ysgol ar sled a chadw'n gynnes yn yr eira.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan. Mae gan y prif ymarferwyr wybodaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae bob un ohonynt yn rhyngweithio'n gynnes iawn gyda'r plant, ac mae hyn yn creu awyrgylch gefnogol, sy'n annog y plant i ddatblygu hunan hyder ac i fwynhau gweithgareddau newydd.

Mae ymarferwyr yn arwain y dysgu yn dda iawn mewn sefyllfaoedd grŵp cyfan. Mae eu defnydd o gwestiynau i ddatblygu sgiliau meddwl y plant pan fyddant wrth eu gwaith ac yn chwarae yn aml yn dda, ond ceir peth anghysondeb rhwng ymarferwyr. Mae'r gweithgareddau yn ysgogol a phwrpasol, er enghraifft, pan fydd plant yn gwneud peli braster hadau ac yn eu hongian ar y coed y tu allan i fwydo adar ar ddiwrnod arbennig o rewllyd.

Mae'r holl ymarferwyr yn cysylltu'r gweithgareddau'n dda â datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd y plant. Er enghraifft, mae plant yn cyfrif pysgod wrth eu dal gyda magned yn yr hambwrdd dŵr. Maent yn cyfrif parau o esgidiau glaw wrth iddynt baratoi i fynd allan ac maent yn hymian ac yn canu amrywiaeth o ganeuon cyfrif hwyliog wrth chwarae. Mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyfoethog o eiriau ac ymadroddion sy'n gysylltiedig â'u themâu ac maent yn eu hailadrodd dro ar ôl tro ar draws yr holl weithgareddau. Maent yn fodelau da iawn o iaith ac maent yn manteisio ar bob cyfle i wella caffael iaith plant. Fodd bynnag, mae ffocws ar sgiliau TGCh yn fwy ysbeidiol ac nid wedi eu cysylltu'n ddigonol â meysydd eraill o ddysgu.

Mae'r ymarferwyr yn trefnu cydbwysedd da iawn rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a rhai a gychwynnir gan y plant. Maent yn sicrhau amgylchedd croesawgar a chyffrous y tu fewn i'w hystafell yn ogystal ag yn yr awyr agored. Mae pob plentyn yn mwynhau'r gweithgareddau awyr agored yn ddyddiol ac maent yn gwisgo'n briodol ar gyfer y tywydd oer. Mae hyn yn eu hannog i fwynhau'r awyr agored tra'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad corfforol.

Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd plant yn glir iawn. Mae'r holl staff yn arsylwi dysgu plant yn ystod gweithgareddau ac yn nodi eu canfyddiadau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol iawn yn ystod sicrhau cynnydd plant yn ole u anghenion penodol.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu’n dda am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau dyddiol ac maent yn derbyn gwybodaeth gryno ar y camau dysgu nesaf eu plentyn. Mae’r lleoliad yn datblygu system gofnodi yn unol â gofynion cenedlaethol diweddar i gynnwys rhieni a gofalwyr fwyfwy yn nysgu eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn creu awyrgylch gynnes a chroesawgar ac yn hyrwyddo brwdfrydedd ar gyfer dysgu. Mae’r trefniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn dda iawn ac mae’r lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar iawn. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da iawn i godi ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd byw a bwyta’n iach.

Mae’r lleoliad yn gweithredu arfer dda o ran glendid, er enghraifft, wrth olchi dwylo cyn bwyta eu byrbrydau ac wrth addysgu plant am beryglon rhoi pethau yn eu cegau. Er enghraifft, dywedodd un plentyn wrth adeiladu iglw bach allan o lympiau siwgr, ‘Mae rhain yn llawn germau, felly rhaid i ni beidio a’u bwyta’r achos mae nhw wedi bod ar y llawr a phawb yn ‘i cyffwrdd nhw.’ Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd buddiol i blant fod yn weithgar yn gorfforol, yn enwedig yn yr awyr agored.

Maent yn annog plant i ailgylchu papur a phlastig yn ystod amser byrbryd ac mae hyn yn datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gynaelodaeth.

Mae’r holl ymarferwyr yn dangos parch a chynhesrwydd tuag at y plant. Maent yn defnyddio strategaethau cadarn i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn cynnig cymorth da iawn i roi hwb i hyder y plant. Mae’r gymhareb oedolion i blant yn ffafriol iawn. Defnyddir diddordebau ac arbenigedd staff yn effeithiol mewn cynllunio ac mewn gweithgareddau goruchwylio. Maent yn ffocysu’n dda iawn ar ddatblygu agweddau personol, moesol a chymdeithasol y plant drwy bwysleisio gwerthoedd megis tegwch, ymddygiad derbyniol ac annerbyniol a gofalu am ei gilydd. Mae’r holl ymarferwyr yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn llwyddiannus drwy eu disgwyliadau uchel o’r plant pan fyddant yn gwisgo i fynd allan a phan fyddant yn tacluso.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i blant gymryd rhan mewn dathliadau megis adeg y cynhaeaf a’r Nadolig ac mae’r rhain yn cyfrannu’n dda at ddatblygiad ysbrydol y plant. Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth addas o gyfleoedd i blant ddysgu am y byd tu allan i’r teulu trwy fideos, llyfrau a rhai ymweliadau addysgol ac ymwelwyr.

Maent yn defnyddio systemau effeithiol iawn i ddynodi anghenion ychwanegol plant yn gynnar. Mae ganddynt gysylltiadau da iawn gydag asiantaethau allanol arbenigol ac maent yn gwneud defnydd da o'r rhain i gefnogi plant a theuluoedd. Fodd bynnag, mae cyswllt y lleoliad gyda'r feithrinfa ysgol yn cael ei gyfyngu'n bennaf i drosglwyddo crynodeb o gynnydd pob plentyn i ddosbarth meithrin yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr Amgylchedd Dysgu : Da**

Mae'r ymarferwyr yn creu awyrgylch croesawgar ac ysbrydoledig sy'n galluogi pob plentyn i ymgartrefu'n gyflym. Mae'r holl ymarferwyr yn parchu natur a chefndir pob plentyn a sicrhau bod pob un yn cael cyfranogi o'r holl brofiadau dysgu. Fodd bynnag, mae defnydd o adnoddau a phrofiadau TGCh yn llai effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ystafell ddiogel, gweddol fechan ac mae'r ymarferwyr yn gwneud defnyddio fanteisiol ohoni. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o bob gofod. Er enghraifft, ardal glyd a charped a chlystogau ar gyfer canu, gwrando ar storïau ac edrych ar lyfrau, yn ogystal ag ardal gwneud ysgrifennu ac ardaloedd paentio i ac adeiladu. Mae'r meysydd dysgu dynodedig yn ddeniadol ac mae'r ymarferwyr yn gweithio'n galed i'w newid a'u diwygio yn rheolaidd yn ôl eu thema penodol.

Mae'r arddangosfeydd o waith y plant yn dathlu eu llwyddiannau ac yn hybu'r dysgu ymhellach.

Mae ganddynt gyflenwad addas o adnoddau tu fewn, llawer ohonynt wedi eu creu gan yr ymarferwyr eu hunain i gyfoethogi dysgu'r plant. Maent yn cael eu storio a'u labelu'n glir er mwyn hybu annibyniaeth y plant wrth iddynt weithio, chwarae a thacluso.

Mae gofod awyr agored y lleoliad yn dda iawn. Mae'n cynnwys amrywiaeth dda o adnoddau i hyrwyddo datblygiad corfforol plant, megis siglen, fframiau dringo, cafnau dŵr a thywod a gardd fechan, ac fe'i ddefnyddir yn rheolaidd i sicrhau bod plant yn mwynhau'r awyr agored.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r rheolwyr yn dangos ymrwymiad uchel i'r lleoliad. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer ei ddatblygiad a disgwyliadau uchel ar gyfer ei berfformiad. Maent yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau staff yn glir a bod ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'u harbenigedd er budd llawn y plant.

Mae gan yr arweinydd sgiliau arweinyddiaeth dda ac mae hi a'r uwch ymarferwr yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm.  Mae'r holl ymarferwyr yn deall amcanion y lleoliad i ddarparu awyrgylch croesawgar lle mae plant yn hapus, yn awyddus i ddysgu a datblygu hyder a hunan-barch.  Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd a disgwyliadau uchel ac yn gweithio'n effeithiol iawn er mwyn sicrhau cysondeb yn eu gwaith.

Mae staff yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yr iaith Gymraeg, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol iawn at fwyta ac yfed yn iach.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol i bennu cyfeiriad strategol ar gyfer y lleoliad, i ddatblygu offeryn cynllunio effeithiol iawn a dull cadarn o ddefnyddio eu harsylwadau o blant i gynllunio eu camau dysgu nesaf.

Mae'r rheolwr ynghyd ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cydweithio effeithiol i werthuso gwaith yr ymarferwyr yn flynyddol.  Maent yn gosod targedau clir iddynt sydd yn cyfateb i'w hanghenion nhw fel unigolion ac i'r lleoliad. Mae'r ddwy brif ymarferwr yn cydweithio i lefel uchel o gysondeb trwy fynychu sesiynau hyfforddiant amrywiol o fewn y lleoliad a'r clwstwr a sesiynau penodol a drefnir gan yr awdurdod lleol.

**Gwella ansawdd:   Da**

Mae sustemau hunan arfarnu a phrosesau cynllunio datblygu'r lleoliad wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae'r rheolwyr ac arweinwyr, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, wedi cryfhau eu sustemau sicrhau ansawdd.  Mae hyn wedi hybu dealltwriaeth ymarferwyr o sut y gall hunan- arfarnu wella ansawdd dysgu ac addysgu.

Mae gan y rheolwr ac ymarferwyr drosolwg addas o gryfderau, diffygion, a'r agweddau i'w datblygu.  Maent yn mesur eu gwelliant yn benodol ac yn ystyrlon. Mae'r ddogfen hunan- arfarnu yn rhoi pwyslais addas ar werthuso a gwella gwaith dyddiol y lleoliad ac ar ddysgu'r plant.  Mae prosesau ar waith i weithredu asesiad gwaelodlin newydd, ond nid yw'r sustem wedi ei sefydlu'n llwyr ac felly ni ellir gwerthuso ei effaith lawn ar ddysgu'r plant.  Er hynny, mae'r lleoliad yn dangos gwelliannau cadarnhaol dros amser.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n ddygn gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol i osod cyfeiriad strategol I'r lleoliad.  Mae'r prif ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r cymorth hwn ac yn gweithredu'n gyflym ar gyngor i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant, er enghraifft, o ran gwella datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl weithgareddau.

Nid yw'r lleoliad wedi cael ei arolygu o'r blaen.  Fodd bynnag, mae'r arweinydd a'r rheolwyr yn gweithredu'n gyflym ac yn gwneud cynnydd da iawn wrth ymateb i argymhellion adborth allanol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae ymarferwyr yn sydyn ac effeithiol I gyngor athro ymgynghorol yr awdurdod lleol er enghraifft, wrth gynllunio'r cwricwlwm, gan nodi camau dysgu nesaf y plant a darparu cynllun effeithiol ar gyfer pob plentyn. Mae'r lleoliad yn sefydlu ffyrdd mwy effeithiol o gynllunio ac asesu cyfnodau datblygiad plant gan gynnwys rhieni yn dysgu eu plant.

Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod addysg i ddatblygu iaith Gymraeg y plant.

Mae'r bartneriaeth gyda rhieni a gofalwyr yn briodol. Mae'r prosbectws yn ddogfen gryno sy'n rhoi gwybodaeth glir am y lleoliad cyn i'w plentyn ddechrau. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfathrebu wyneb yn wyneb yn ddyddiol ac awyrgylch croesawgar. Mae rhieni yn gwerthfawrogi polisi drws agored y lleoliad a'r cyfle i siarad â staff yn rheolaidd. Maent yn gwerthfawrogi eu bod ar gael i drafod unrhyw bryderon a all fod ganddynt.

Mae gan rieni fynediad at arsylwadau'r staff o ddysgu eu plant ac maent yn derbyn adroddiad tymhorol manwl. Mae'r iaith yn glir ac yn ddealladwy. Rhoddir sylw da i nodi camau dysgu nesaf plant unigol er mwyn i rieni gael cyfle i gyfrannu i ddysgu eu plant.

Mae pob plentyn yn trosglwyddo i'r ysgol brif ffrwd. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth gyda'r ysgol yn sicrhau cysondeb digonol o ran cyfleoedd dysgu ac arddulliau addysgu i sicrhau dilyniant llyfn a phontio effeithiol.
Fodd bynnag, mae pob partneriaeth yn gweithio'n annibynnol o'i gilydd ac nid ydynt yn cydweithredu'n ddigonol, i wneud y gorau o'u hamrywiaeth brofiad, sgiliau, adnoddau neu gyllid er budd llawn llwyddiant y lleoliad ac ar gyfer datblygiad plant ym mhob maes o'r cwricwlwm.

**Rheoli Adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn gweithio'n dda iawn fel tîm, yn datblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol.

Mae rheolwyr yn gwneud defnydd da o gryfderau ymarferwyr i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn hyderus yn yr iaith Gymraeg a'u defnydd o'r iaith yn gyson dda ac yn rhoi i'r plant strwythur da iawn o eiriau ac ymadroddion i annog eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r Gymraeg.

Mae trefniadau rheoli perfformiad y rheolwr yn nodi anghenion hyfforddi yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cael mynediad da at hyfforddiant, sy'n sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar agwedd gadarnhaol at ddatblygiad proffesiynol ac mae hyn yn cael effaith dda ar ddysgu a chynnydd plant.

At ei gilydd, mae'r adnoddau yn ddigonol ac ymarferwyr yn gwneud defnydd da iawn o'r amrywiaeth sydd ar gael.  Fodd bynnag, mae adnoddau i wella sgiliau TGCh y plant yn gyfyngedig iawn.

Mae rheolwyr yn goruchwylio gwariant yn dda, ac o ganlyniad, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |